



Deall eich canlyniadau: Tystysgrif Her Sgiliau

Mae'r Adroddiad Canlyniadau yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol i'ch helpu i ddeall sut rydym wedi cyfrifo canlyniadau eich myfyrwyr, a'r data rydym wedi'u defnyddio wrth gyfrifo. Rydym wedi darparu rhywfaint o ddata ar lefel canolfan ac ymgeisydd, a ddisgrifir isod.

Rydym wedi safoni graddau gan ddefnyddio prosesau ystadegol a ddatblygwyd gan CBAC ac a gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru.

Data ar Lefel Canolfan

Mae'r data ar lefel canolfan yn dangos dosraniad graddau eich canolfan ar gyfer pob ffynhonnell o dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gyfrifo graddau eich myfyrwyr. Rydym wedi cyflwyno'r wybodaeth ar ffurf tablau a graff.

Data hanesyddol: canlyniadau eich canolfan yn ystod y blynyddoedd diwethaf

Ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch, rydym wedi defnyddio sgorau GMU yr unedau y mae'r ymgeiswyr wedi'u bancio, ynghyd â'r drefn restrol a ddarparwyd gennych, i gyfrifo graddau. Mae data hanesyddol eich canolfan wedi'u darparu er gwybodaeth.

Os nad oedd gan eich canolfan ddigon o ymgeiswyr gyda thystiolaeth wedi'i bancio i'r dull hwn weithio'n ddibynadwy, mae dosraniad graddau eich canolfan o 2019 wedi cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer cyfrifo graddau.

Graddau asesu canolfannau (2020)

Mae hwn yn dangos dosraniad graddau asesu canolfannau a gyflwynwyd gennych.

Graddau wedi'u cyfrifo (2020)

Dyma ddosraniad y graddau wedi'u cyfrifo terfynol ar gyfer eich canolfan. Dyma'r canlyniadau a fydd yn ymddangos ar dystysgrifau eich myfyrwyr.

Data ar Lefel Ymgeisydd

Ar gyfer pob ymgeisydd, gallwch weld y radd asesu canolfannau a'r drefn restrol a gyflwynwyd gennych, ynghyd â'r radd wedi'i chyfrifo derfynol.

Sut y cyfrifwyd eich graddau

Mae'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wnaeth gofrestru i gwblhau'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch wedi bancio marciau a graddau unedau o gyfresi blaenorol. Dyma sail ddilys a dibynadwy felly i'w defnyddio i gyfrifo graddau. Dull yw hwn sy'n debyg i'r hyn a ddefnyddiwyd i safoni graddau Safon Uwch yng Nghymru.

Cam cyfrifo

Mae'r dull a ddefnyddiwyd i gyfrifo graddau'n seiliedig ar yr hyn y byddem yn ei wneud pe byddai ymgeisydd yn methu elfen o gymhwyster. Defnyddir rhagfynegiad ystadegol yn seiliedig ar 'sgorau z' i lenwi'r bwlch yn sgorau unedau wedi'u bancio yr ymgeisydd. Er enghraifft, pe byddai GMU ar gyfer Uned 4 (Her y Gymuned) ar goll gan ymgeisydd, byddem yn cyfrifo'i gyfanswm ar yr unedau eraill:

$$GMU_{ymg} = Uned1 + Uned2 + Uned3$$

Yna byddem yn cyfrifo'r gwyriad cymedrig a safonol i bob ymgeisydd arall yn y garfan, ar gyfer yr unedau hyn. Byddai hyn yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo sgôr z ar gyfer perfformiad yr ymgeisydd. Mesur safonol o safle'r ymgeisydd yn nosraniad carfan yw'r sgôr z:

$$Z_{ymg} = (GMU123_{ymg} - GMUcymedr123_{eraill}) / gs123_{eraill}$$

Nesaf, cyfrifir y gwyriad cymedrig a safonol ar Uned 4 i bob ymgeisydd arall, ac yn olaf defnyddir y tri gwerth – sgôr z i sefydlu safle'r ymgeisydd mewn dosraniad marciau safonedig, a'r gwyriad cymedrig a safonol ar gyfer yr 'uned goll' – i gyfrifo gwerth GMU.

$$GMU4_{ymg} = (Z_{ymg} * gs4_{arall}) + GMUcymedr4_{eraill}$$

Gan y gwneir rhai cyfuniadau o unedau cyn y gyfres olaf yn amlach na dim, defnyddir perfformiad hanesyddol ar unedau i sicrhau bod y model yn ddigon dibynadwy. Defnyddiwyd perfformiad ar unedau ar gyfer carfanau 2018 a 2019 ynghyd â data 2020 at y diben hwn.

Fel enghraifft, pe byddai data ar gyfer unedau 2 a 3 yn unig gan ymgeisydd yna byddai'r sgôr wedi'i rhagfynegi yn cael ei deillio fel a ganlyn:

$$Z_{ymg} = (GMU23_{ymg} - GMUcymedr23_{2018}) / gs23_{2018}$$

$$GMU1_{ymg} = (Z_{ymg} * gs1_{2018}) + GMUcymedr1_{2018}$$

$$GMU4_{ymg} = (Z_{ymg} * gs_{2018}) + GMUcymedr4_{2018}$$

Defnyddiwyd y dull hwn ar gyfer pob ymgeisydd sy'n cwblhau'r cymhwyster yr haf hwn i lenwi'r bylchau yn y marciau gan nad oedd ymgeiswyr wedi gallu cwblhau pob uned.

Cam dosrannu graddau ac addasu

Yna pennwyd 'trothwyau graddau' i neilltuo pob sgôr i radd. Mae'n bosibl newid y gwerthoedd hyn fel bod y canlyniadau cyffredinol yn nes at ddosraniad graddau a ddiffiniwyd ymlaen llaw. Ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch, rhoddwyd ystyriaeth i sicrhau bod canlyniadau'n debyg i 2019. Roedd angen iddynt hefyd fod yn agos i ragfynegiad ystadegol ar gyfer canlyniadau graddau i rai 18 mlwydd oed yn gyson â data cyrhaeddiad blaenorol.

Cam dyrannu graddau

Unwaith y pennwyd gwerthoedd trothwyau graddau, lluniwyd dyraniadau graddau i bob canolfan, yn seiliedig ar y dosraniad sgorau priodoledig ar gyfer eu hymgeiswyr. Yna dosrannwyd graddau i'r ymgeiswyr a gynhwyswyd yng nghanam cyfrifo'r model, yn seiliedig ar y drefn restrol a ddarparwyd gan bob canolfan.

Cam slotio i mewn

Cafodd ymgeiswyr oedd heb eu cynnwys yng nghanam cyfrifo'r model eu 'slotio i mewn' i radd yn ôl eu gradd asesu canolfannau (GAC) a safle ar y drefn restrol. Byddai pob un o'r ymgeiswyr hyn felly'n derbyn y radd sydd agosaf at eu GAC nad yw'n torri trefn restrol y ganolfan.

Er enghraifft, i ymgeisydd X, pe byddai'r ymgeisydd uwchben X yn nhrefn restrol y ganolfan wedi derbyn gradd B drwy'r model, a'r ymgeisydd islaw X yn derbyn E, yna os yw GAC X yn B neu well yna bydd yn cael B; os yw'n E neu'n waeth bydd yn cael E ac fel arall dyfernir ei GAC iddo ar y sail ei fod rhwng y graddau i'r ymgeiswyr sydd y naill ochr a'r llall i X ar y rhestr.

Canolfannau â niferoedd annigonol o farciau a graddau unedau wedi'u bancio

Ni all y dull hwn weithio ar gyfer canolfannau â niferoedd isel o farciau asesiadau wedi'u bancio ymhlith eu hymgeiswyr. Yn achos y canolfannau hyn defnyddiwyd dosraniad graddau sy'n seiliedig ar ganlyniadau 2019 fel sail. Mae'r dull hwn yn debyg i'r hyn a ddefnyddiwyd ar gyfer yr UG yng Nghymru, gan ei fod yn seiliedig ar berfformiad canolfannau uniongyrchol. Defnyddiwyd y dull hwn ar gyfer canolfannau lle roedd gan lai na hanner cofrestriad 2020 y ganolfan unrhyw raddau unedau wedi'u bancio

Adolygiad o'r canlyniadau

Dadansoddiad o'r canlyniadau, gan nodi'r cofrestriadau wedi'u haguegu a dosraniadau graddau arfaethedig i'w hystyried gan grŵp gwneud penderfyniadau dan arweiniad y Swyddog Cyfrifol. Os nad oedd canlyniadau'n cyfateb yn dda i gyfresi blaenorol, addaswyd y model i sicrhau cymaroldeb rhwng blynyddoedd, gan ddefnyddio'r trothwyau graddau. Penderfyniadau'r Swyddog Cyfrifol oedd y rhain ar ôl ymgynghori â'r Swyddog Safonau a thimau'r pynciau.